**<u>GWYBODAETH BWYSIG – *IMPORTANT INFORMATION.*</u>**

Annwyl rieni/*Dear parents,*

Fe'ch hysbysir bod y gwaith wedi dechrau ar y prosiect adeiladu yn yr ysgol ers dechrau'r wythnos hon. Mi fyddwn yn gwneud addasiadau'n raddol i drefniadau'r ysgol oherwydd hyn, gan ddechrau **<u>bore fory, dydd Iau, Tachwedd 19eg.</u>**

Ni fydd unrhyw gerbyd yn cael dod ar faes parcio'r ysgol ar ôl 8.40 a.m., a bydd y giat fawr yn cael ei chloi bryd hynny. O fory ymlaen, bydd y tacsis yn gollwng y plant sy'n teithio arnynt ar fan aros y bysiau yng ngwaelod y cae, a bydd aelodau o staff yn aros amdanynt wrth y giât a'u harwain i'r ysgol, a'u harwain i lawr yno ar ddiwedd y dydd.

Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd y disgyblion sy'n dod i fyny'r llwybr o'r giât werdd yn dal i wneud hynny nes yr hysbysir chi yn wahanol. Bydd aelod o staff yn aros wrth y gornel i sicrhau eu diogelwch a'u harwain i'w man ymgynnull sydd mewn lle ar hyn o bryd.

Byddwn yn cysylltu gyda chi eto'n fuan i roi gwybodaeth am y manylion ac unrhyw newidiadau pellach fel y bydd rheini'n digwydd.

Diogelwch ein holl ddisgyblion gan gadw cyfyngiadau COVID-19 mewn cof hefyd, fydd yn cael y flaenoriaeth yn unrhyw addasiadau a wneir i'n trefniadau arferol.

Fel y gallwch werthfawrogi, bydd newidiadau yn digwydd yn gyson yn ystod y cyfnod dechreuol hwn.

*You are informed that the work has commenced on the building project since the beginning of this week. We will be gradually adapting the school's arrangements starting* ***<u>tomorrow morning, Thursday, November 19th.</u>***

*No vehicle will be allowed on the school's car park after 8.40 a.m., and the entrance gate will be locked at that time. From tomorrow onwards, the taxis will be dropping the children who travel on them off at the bus stop at the bottom of the school field and members of staff will be waiting for them at the gate and lead them to the school.*

*The pupils who currently come up the path from the green gate will continue to do so until further notice. A member of staff will be standing by the corner to ensure their safety and lead them to their present meeting place.*

*We will be contacting you again soon to give you further information and to share details with you regarding any further changes to our present arrangements, as these occur.*

*It is the safety of our children bearing in mind any COVID-19 restrictions in place, that will have the priority with any adaptations to our present arrangements.*

*As you can appreciate, adjustments will be made regularly during this time.*

Yn gywir/*Yours sincerely,*

Ll.M.Jones (Miss) (Prifathrawes – *Headmistress)*